OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 No. 2705

## Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2012

## RHAN 6

Y Gofynion ar gyfer Deunyddiau ac Eitemau Plastig

### Dehongli Rhan 6 [F1ac Atodlen 1]

**13.** Yn y Rhan hon ac yn [F2Atodlen 1] mae unrhyw gyfeiriad at Erthygl neu Atodiad â rhif yn gyfeiriad at yr Erthygl honno yn Rheoliad 10/2011 neu'r Atodiad hwnnw iddo.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn rhl. 13 heading wedi eu hamnewid (14.9.2017) gan Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2017 (O.S. 2017/832), rhlau. 1(3), **6(a)**

**F2** Geiriau yn rhl. 13 wedi eu hamnewid (14.9.2017) gan Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2017 (O.S. 2017/832), rhlau. 1(3), **6(b)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 13 mewn grym ar 20.11.2012, gweler **rhl. 1**

### Troseddau mynd yn groes i ddarpariaethau penodedig yn Rheoliad 10/2011

**14.**—(1) Yn ddarostyngedig i'r trefniadau trosiannol a nodir yn Erthygl 22(4) a (5) ac Erthygl 23(**1**), bydd unrhyw berson sy'n rhoi ar y farchnad ddeunydd neu eitem blastig nad yw'n cydymffurfio â gofyniad yn Rheoliad 10/2011 a bennir yng ngholofn 1 [F3o Atodlen 1] yn euog o drosedd.

F4(2) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**Diwygiadau Testunol**

**F3** Geiriau yn rhl. 14(1) wedi eu hamnewid (14.9.2017) gan Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2017 (O.S. 2017/832), rhlau. 1(3), **7(a)**

**F4** Rhl. 14(2) wedi ei hepgor (14.9.2017) yn rhinwedd Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2017 (O.S. 2017/832), rhlau. 1(3), **7(b)**

(**1**) Mae Erthygl 22(4) yn darparu bod yn rhaid i ychwanegion penodol a ddefnyddir mewn seis ffibr gwydr gael eu hasesu o dan Erthygl 19 a hynny hyd 31 Rhagfyr 2015. Mae Erthygl 22(5) yn darparu y caniateir i ddeunyddiau ac eitemau a roddwyd yn gyfreithlon ar y farchnad cyn 1 Mai 2011 gael eu rhoi ar y farchnad hyd 31 Rhagfyr 2012. Mae Erthygl 23 yn darparu, o ran y mathau penodol o ddefnydd a wneir ar ychwanegion, fod Erthygl 5 yn gymwys o 31 Rhagfyr 2015 ymlaen a bod darpariaethau Erthygl 18(2) a (4) ac Erthygl 20 yn gymwys o 31 Rhagfyr 2012 ymlaen.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** Rhl. 14 mewn grym ar 20.11.2012, gweler **rhl. 1**

### Awdurdodau cymwys at ddibenion Rheoliad 10/2011

[[F5]**15.** Yr awdurdodau cymwys at ddibenion Erthyglau 8 ac 16(1) o Reoliad 10/2011 yw'r Asiantaeth Safonau Bwyd, pob awdurdod bwyd yn ei ardal a phob awdurdod iechyd porthladd yn ei ranbarth.**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F5** Rhl. 15 wedi ei amnewid (14.9.2017) gan Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2017 (O.S. 2017/832), rhlau. 1(3), **8**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Rhl. 15 mewn grym ar 20.11.2012, gweler **rhl. 1**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 14/09/2017.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2012, RHAN 6.